



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales

Cynllun y Sector Gwirfoddol



Medi 2000

Cynnwys

Tudalen

Rhagair

Pennod 1:	Cyflwyniad	1
Pennod 1:	Egwyddorion cyffredinol y berthynas rhwng y Cynulliad a'r sector gwirfoddol	3
Pennod 3:	Sut mae'r Cynulliad yn bwriadu gweithio mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol.	7
Pennod 4:	Y weithdrefn ar gyfer ymgynghori â'r sector gwirfoddol yng Nghymru	14
Pennod 5:	Polisi'r Cynulliad ar wirfoddoli	17
Pennod 6 :	Sut bydd y Cynulliad yn hybu datblygiad cymunedol	21
Lefelau Partneriaeth		25



Rhagair



Un o'r prif newidiadau yng Nghymru ers i'r Cynulliad ddod i rym yw'r ffordd y mae'r Llywodraeth ddatganoledig wedi penderfynu y bydd yn gweithio mewn partneriaeth â charfanau pwysig yn ein cymdeithas.

Mae'r Cynllun hwn ar gyfer y Sector Gwirfoddol yn enghraifft dda o'r ffordd y mae'r Cynulliad yn rhoi ein ffydd mewn partneriaeth ar waith. Dyma'r cynllun statudol cyntaf o'i fath yn y DU. Yr wyf yn cael ar ddeall mai dyma'r cyntaf o'i fath yn Ewrop. Datblygwyd y cynllun trwy ymgynghori'n llawn â'r sector gwirfoddol ei hun, ac ag eraill yng Nghymru. Mae Aelodau a Swyddogion y Cynulliad wedi ymroi i ystyried buddiannau'r sector gwirfoddol ym mhob agwedd ar ein gwaith. Ceir cefnogaeth lawn i'r Cynllun gan yr holl bleidiau a gynrychiolir yn y Cynulliad.

Fel rhan o'r Cynllun, mae'r Cynulliad wedi sefydlu Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol. Mae hyn yn rhoi'r sector gwirfoddol yn yr un sefyllfa â llywodraeth leol a byd busnes o ran eu trefniadau partneriaeth gyda'r Cynulliad. Er y byddai'n anymarferol i'r Cynulliad geisio gweithio'n uniongyrchol â phob un o'r 25,000 o grwpiau gwirfoddol yng Nghymru, ein nod yw cyrraedd cymaint o'r sefydliadau hynny ag sy'n bosibl a'u galluogi hwythau i gyrraedd y Cynulliad trwy ddefnyddio technoleg gwybodaeth a Chyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol.

Yr wyf yn falch bod y Cynulliad wedi llunio'r Cynllun hwn sy'n unigryw yn hanes y berthynas rhwng y Llywodraeth a'r Sector Gwirfoddol, yn ystod ei flwyddyn gyntaf. Y cam nesaf, a fydd yn bwysicach eto, yw sicrhau ei fod yn cael ei roi ar waith yn llawn ac yn effeithiol.

Rhodri Morgan

Y Gwir Anrh Rhodri Morgan AC AS
Prif Ysgrifennydd

CYNLLUN CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU AR GYFER Y SECTOR GWIRFODDOL

PENNOD 1: CYFLWYNIAD

Y Sefyllfa Statudol

1.1 Gwneir y Cynllun hwn o dan Adran 114 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 sy'n gofyn i'r Cynulliad lunio cynllun yn nodi sut y mae'n bwriadu hyrwyddo buddiannau cyrff perthnasol y sector gwirfoddol, drwy arfer ei swyddogaethau fel a ganlyn:

114.- (1) Bydd y Cynulliad yn llunio cynllun sy'n nodi sut y mae'n bwriadu, drwy arfer ei swyddogaethau, hybu buddiannau cyrff gwirfoddol perthnasol.

(2) Yn yr adran hon ystyr "cyrff gwirfoddol perthnasol" yw cyrff (ac eithrio awdurdodau lleol neu gyrff cyhoeddus eraill) y mae eu gweithgareddau -

(a) yn cael eu cyflawni at ddibenion heblaw gwneud elw, ac sydd

(b) o fudd, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, i Gymru gyfan neu unrhyw ran o Gymru (p'un a ydynt o fudd hefyd i unrhyw ardal arall neu beidio).

(3) Wrth bennu'r ddarpariaeth sydd i'w chynnwys yn y Cynllun bydd y Cynulliad yn ystyried sut y mae'n bwriadu arfer ei swyddogaethau sy'n effeithio ar gyrff gwirfoddol perthnasol neu sy'n ymwneud â'u gwaith.

(4) Bydd y Cynllun yn pennu -

(a) sut y mae'r Cynulliad yn bwriadu darparu cymorth i gyrff gwirfoddol perthnasol (boed hynny drwy grantiau, benthyciadau, gwarantau neu unrhyw ddulliau eraill),

(b) sut y mae'r Cynulliad yn bwriadu cadw llygad ar y defnydd o unrhyw gymorth a ddarperir ganddo i gyrff gwirfoddol perthnasol, ac

(c) sut y mae'r Cynulliad yn bwriadu ymgynghori â chyrff gwirfoddol perthnasol ynglŷn ag arfer ei swyddogaethau sy'n effeithio ar y cyfryw gyrff neu sy'n ymwneud â'u gwaith.

- (5) Bydd y Cynulliad yn cadw golwg ar y cynllun ac yn y flwyddyn ar ôl pob etholiad cyffredin (ar ôl y cyntaf) bydd yn ystyried a ddylai gael ei ailwneud neu ei ddiwygio.
- (6) Ni all y Cynulliad ddirprwyo swyddogaeth gwneud y cynllun na'i ailwneud na'i ddiwygio.
- (7) Bydd y Cynulliad yn cyhoeddi'r cynllun pan gaiff ei wneud gyntaf a phryd bynnag y caiff ei ailwneud wedyn, ac, os caiff y cynllun ei ddiwygio heb gael ei ailwneud, bydd y Cynulliad yn cyhoeddi naill ai'r diwygiadau neu'r cynllun wedi ei ddiwygio (fel y barna ei bod yn briodol)
- (8) Bydd y Cynulliad yn ymgynghori ag unrhyw gyrff gwirfoddol perthnasol fel y barna ei bod yn briodol cyn gwneud, ailwneud neu ddiwygio'r Cynllun.
- (9) Ar ôl pob blwyddyn ariannol, bydd y Cynulliad yn cyhoeddi adroddiad am y modd y cafodd y cynigion a nodwyd yn y cynllun eu gweithredu yn ystod y flwyddyn ariannol honno.

1.2 Mae Deddf Llywodraeth Cymru 1998 hefyd yn darparu ar gyfer cynlluniau ar lywodraeth leol a datblygu cynaliadwy. Hefyd, mae'r Ddeddf yn gofyn i'r Cynulliad wneud trefniadau ar gyfer ymgynghori â busnesau ac i sicrhau ei fod yn cynnig cyfle cyfartal i bawb.

PENNOD 2: EGWYDDORION CYFFREDINOL Y BERTHYNAS RHWNG Y CYNULLIAD A'R SECTOR GWIRFODDOL

2.1 Yn y Cynllun hwn, mae'r term *sector gwirfoddol* yn cynnwys cyrff gwirfoddol, grwpiau cymunedol, gwirfoddolwyr, grwpiau hunan gymorth, cwmnïau cydweithredol a mentrau cymunedol, sefydliadau crefyddol a chyrrff a mudiadau eraill nad ydynt yn gweithredu er mwyn gwneud elw ac sy'n dod â budd i gymunedau a phobl Cymru.

2.2 Mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i gydnabod y sector gwirfoddol, rhoi gwerth arno a'i hyrwyddo wrth iddo adeiladu partneriaeth wirioneddol gyda'r sector.

2.3 Mae'r Cynllun yn nodi'r egwyddorion bras a'r gwerthoedd a rennir, a fydd yn llywodraethu'r berthynas rhwng y Cynulliad a'r sector gwirfoddol yng Nghymru.

2.4 Drwy ymgynghori â'r sector, bydd y Cynulliad yn datblygu ac yn cynnal Cynllun Gweithredu ar wahân ar gyfer monitro'r Cynllun hwn yn effeithiol.

2.5 Bydd gweithrediad ac effaith y Cynllun a'r Cynllun Gweithredu yn cael eu hadolygu'n flynyddol a chyflwynir adroddiad i'r Cynulliad.

2.6 Wrth weithio mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol mae'r Cynulliad yn ceisio:

- annog arferion da a dulliau cydweithredol o wneud penderfyniadau
- adolygu perfformiad, yn enwedig lle mae cyrff yn derbyn cyllid gan y Cynulliad yn uniongyrchol fel darparwyr gwasanaethau.
- hyrwyddo'r sector gwirfoddol trwy gydweithio a darparu hyfforddiant yn ogystal â chymorth ariannol.
- hyrwyddo mentrau gwirfoddoli a'r syniad bod gweithgarwch gwirfoddol yn rhan hanfodol o ddinasyddiaeth weithgar.
- hyrwyddo gwaith cyrff ymbarel a chydweithio rhwng cyrff o'r fath.
- cydnabod anghenion penodol a chyfraniadau arbennig grwpiau penodol o fewn y sector.
- hyrwyddo twf yng nghyfraniadau'r gwahanol grwpiau oedran er mwyn sicrhau bod gweithgarwch gwirfoddol yn cael ei ystyried yn rhan o ddinasyddiaeth weithgar i bawb o bob oedran ac ym mhob sefyllfa.
- mesur a chydabod yr hyn sy'n bwysig i'r sector gwirfoddol; ac
- asesu'n ofalus, gan ymgynghori â'r cyrff gwirfoddol perthnasol, effaith bosibl newidiadau mewn polisi ar y sector.

Gwerthoedd a rennir

2.7 Mae'r Cynulliad ar sector gwirfoddol yn rhannu nifer o werthoedd cyffredin ynghylch rôl unigolion a chymunedau mewn democratiaeth fodern, a fydd yn sail i holl agweddau'r Cynllun hwn. Y nod yw creu cymdeithas sifil sy'n:

- cynnig cyfle cyfartal i'r holl aelodau waeth beth yw eu hil, lliw, rhyw, tuedd rywiol, oedran, statws priodasol, anabled, dewis iaith, crefydd neu gyfrifoldebau teuluol/domestig;
- cynhwysol ac yn caniatáu i bobl gymryd rhan yn ei holl weithgareddau economaidd, cymdeithasol a diwylliannol;
- galluogi pobl i gymryd rhan yn natblygiad eu cymunedau ac yn cydnabod gwerth cyfraniad o'r fath;
- dibynnu ar bobl yn gwirfoddoli i feithrin arweiniad cymunedol a chynyddu democratiaeth leol;
- cynnwys y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol sy'n cydweddu ac yn ceisio mynd i'r afael â materion cymdeithasol mewn ysbryd o bartneriaeth rhyngddynt.
- mwynhau manteision amgylchedd iach ac economi ffyniannus gystadleugar, law yn llaw â bywyd cymunedol egniol o ganlyniad i'w hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy.

2.8 Mae'n rhaid i'r berthynas rhwng y Cynulliad ar sector gwirfoddol fod yn seiliedig ar onestrwydd, ymddiriedaeth a pharch rhwng y naill ochr a'r llall.

2.9 Mae'r Cynulliad yn cydnabod bod partneriaeth yn golygu cydweithio tuag at gyfres o nodau cyffredin a gwerthfawrogi cyfraniad arbennig pob parti.

2.10 Mae'r Cynulliad yn cydnabod:

- cwmpas ac amrywiaeth eang gweithgarwch gwirfoddol ar draws holl sbectrwm y gymdeithas; cyfraniad cyrff gwirfoddol a chymunedol a gwirfoddolwyr at fywyd economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac ieithyddol Cymru; a'r rôl maent yn ei chwarae wrth lunio a chyflwyno polisi cyhoeddus;

- bod cyrff gwirfoddol a chymunedol yn gyrrff annibynnol sy'n pennu eu blaenoriaethau eu hunain ac yn rheoli eu materion eu hunain;
- bod gwirfoddoli yn fynegiant pwysig o ddinasyddiaeth ac yn rhan bwysig o ddemocratiaeth. Hynny yw gwneud ymrwymiad o ran amser ac egni er lles y gymdeithas a'r gymuned ac y gall fod ar nifer o ffurfiau. Caiff ei wneud yn rhydd ac o ddewis, heb ystyried budd ariannol;
- bod gan y sector gwirfoddol ymrwymiad i gynrychioli buddiannau'r rhai y mae'n gweithio drostynt;
- bod cyrff y sector gwirfoddol yn gweithredu o fewn yr egwyddorion a ddefnyddiwyd i'w sefydlu, ac yn atebol i'w haelodau a'r unigolion a'r cymunedau maent yn gweithio gyda hwy.

2.11 Mae'r Cynulliad:

- yn nodi y bydd gan y Prif Ysgrifennydd gyfrifoldeb cyffredinol am y Cynllun Sector Gwirfoddol.
- yn dynodi Ysgrifennydd Cynulliad a fydd â chyfrifoldeb penodol am fuddiannau'r sector gwirfoddol;
- yn disgwyl i bob rhan o'r Cynulliad – y Cabinet, pwyllgorau a'r swyddogion – hyrwyddo buddiannau'r sector gwirfoddol yn eu gwaith ac wrth wneud penderfyniadau;
- yn bwriadu cynnal:
 - * polisi ar weithio mewn partneriaeth â'r sector gwirfoddol a mesurau i gefnogi hyn (Pennod 3);
 - * trefniadau ar gyfer ymgynghori â'r sector gwirfoddol (Pennod 4);
 - * polisi ar wirfoddoli a mesurau i hybu gwirfoddoli (Pennod 5);
 - * polisi ar ddatblygiad cymunedol a mesurau i'w hybu (Pennod 6); a
 - * Cod Ymarfer ar ariannu'r sector gwirfoddol a gyhoeddir fel dogfen ar wahân.

Cod ymarfer ar gyfer ariannu'r sector gwirfoddol

2.12 Mae'r Cynulliad yn cydnabod bod yn rhaid i'w bolisiau ar y sector gwirfoddol gynnwys mesurau ar gyfer darparu cefnogaeth ariannol i'r sector. Bydd lefel yr adnoddau sydd ar gael yn pennu'r graddau y bydd angen i fesurau a chronfeydd gael eu targedu yn ôl blaenoriaethau'r Cynulliad. Mae'r Cynulliad hefyd yn cydnabod ei rôl wrth geisio sicrhau bod y sector gwirfoddol yn cael mynediad teg a rhesymol i arian cyhoeddus.

2.13 Ar draws amrediad ei swyddogaethau, mae'r Cynulliad wedi'i ymrwymo i sefydlu a chynnal gweithdrefnau er mwyn sicrhau'r arferion cydnabyddedig gorau wrth weinyddu ei gynlluniau grant ac o fewn yr asiantaethau sy'n gweinyddu cyllid ar ei ran. Mae'r meini prawf allweddol canlynol wedi eu cynnwys yn y Cod Ymarfer ar Ariannu'r Sector Gwirfoddol a bydd y Cynulliad yn eu cynnal, eu defnyddio a'u hybu:

- eglurder o ran amcanion cynlluniau grant a'u meini prawf ar gyfer bod yn gymwys;
- tryloywder a gwrthrychedd wrth weinyddu ac asesu;
- cysondeb rhwng rhaglenni cyllido;
- trefniadau ar gyfer pennu amcanion a dangosyddion perfformiad ystyrlon, sy'n cyfateb i lefel y cyllido, y gellir eu defnyddio i fonitro a gwerthuso corff;
- symud tuag at drefniadau cyllido tair blynedd ar gyfer grantiau craidd fel ffordd o hyrwyddo cynllunio ariannol effeithiol ar gyfer y tymor hir
- targedu adnoddau yn effeithiol.

2.14 Mae'r cod ymarfer ar ariannu'r sector gwirfoddol a'r telerau a'r amodau a gyhoeddwyd adeg gwneud y grant yn darparu'r mecanweithiau a ddefnyddir gan y Cynulliad i fonitro'r defnydd a wneir o unrhyw gymorth a ddarperir ganddo i sefydliadau perthnasol.

2.15 Mae'r Cynulliad hefyd wedi'i ymrwymo i hybu arferion da gan gyllidwyr eraill.

2.16 Bydd y Cynulliad yn ymgynghori â'r sector gwirfoddol cyn gwneud newidiadau i'r *Cod ymarfer ar ariannu'r sector gwirfoddol*.

PENNOD 3: SUT MAE'R CYNULLIAD YN BWRIADU GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH Â'R SECTOR GWIRFODDOL

Cyffredinol

3.1 Yn y cynllun hwn, mae *partneriaeth* yn golygu cydweithio tuag at gyfres o nodau cyffredin a chydabod cyfraniad arbennig pob parti.

3.2 Er mwyn gweithredu ymrwymiad y Cynulliad i gydweithio mewn partneriaeth â'r sector cyhoeddus yn iawn, bydd angen mecanweithiau ar gyfer deialog rhwng y partion a threfniadau gweithredu sy'n sicrhau systemau effeithiol ar gyfer monitro ac adolygu.

3.3 Mae'r Cynulliad yn cydnabod bod sawl gwahanol fath o gytundeb y gellir eu disgrifio fel partneriaethau. Maent yn amrywio o un ochr yn cefnogi cynlluniau'r corff arall, i gyfraniad llawn at y broses o wneud penderfyniadau a rheoli adnoddau. Mae disgrifiad o'r gwahanol lefelau o bartneriaeth ar dudalen 25.

3.4 At ddibenion y Cynllun hwn, mae partneriaeth yn golygu bod y sector gwirfoddol:

- yn cael yr un cyfle â'r Cynulliad i leisio'i farn am y trefniadau ar gyfer y cydweithio rhwng y sector gwirfoddol â'r Cynulliad;
- yn cyfrannu at lywio datblygiad polisiau a rhaglenni ar draws y Cynulliad yn gynnar yn y broses ac y bydd ei gynigion yn cael eu hasesu yn erbyn yr un meini prawf â'r sector cyhoeddus;
- yn cyfrannu ei sylwadau ar y gweithdrefnau ar gyfer gweinyddu adnoddau a blaenoriaethau ar gyfer dosbarthu adnoddau i'r sector gwirfoddol;
- yn cael mynediad i'w wybodaeth, hyfforddiant, gwasanaethau cynyddu gallu a'i adnoddau ei hunan;
- yn cael cyfleoedd i arwain yn y meysydd hynny lle mae'n gallu gwneud hynny orau.

3.5 Mae'r Cynulliad yn cydnabod bod gan y gwahanol rannau o'r sector wahanol alluoedd i'w defnyddio gydag ef. Mae'r Cynulliad yn cydnabod y dylid cael disgwyliadau realistig wrth weithredu'r bartneriaeth ac yn cydnabod bod cysylltiad

rhwng buddsoddi adnoddau yn y sector gwirfoddol a'r gallu i weithio mewn partneriaeth ar sail cyfartal.

Deialog a chydweithredu

3.6 Bydd y Cynulliad, ar y cyd â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, yn nodi'r rhwydweithiau a chyrrff ymbarel perthnasol yn y sector gwirfoddol a fydd â diddordeb yn ei waith ac yn cytuno ar drefniadau ymarferol ar gyfer deialog a chydweithredu ar lefel weithredol. Yn gyfnewid am hyn mae'r Cynulliad yn disgwyl i gyrrff gwirfoddol gydweithredu â'i gilydd i ffurfio rhwydweithiau priodol sy'n gallu cysylltu â'r Cynulliad ar y cyd ar faterion polisi a materion gweinyddol cyffredin. Nod y Cynulliad yw cyfarfod yn rheolaidd â chynrychiolwyr o rwydweithiau'r sector gwirfoddol at y diben hwn. Bydd y trefniadau hyn yn cynnwys:-

- cyfnewid gwybodaeth a sylwadau ar ddatblygiadau ym mholisiau a blaenoriaethau'r Cynulliad;
- gallu amrywiol rannau o'r sector gwirfoddol i gymryd rhan yng ngwaith y Cynulliad a chyfrannu ato;
- hysbysu'r Cynulliad am ddatblygiadau a phryderon a nodwyd gan y sector gwirfoddol trwy ei waith;
- cymryd rhan mewn gweithgoreu er mwyn datblygu polisiau a strategaethau newydd;
- trefniadau ymgynghori ar bolisi neu raglenni strategol newydd;
- cytuno'r terfynau ar gyfer cydweithio wrth roi raglenni o'r fath ar waith; ac
- ymdrin â threfniadau gweinyddol ar gyfer raglenni cyllido.

3.7 Bydd pob Ysgrifennydd Cynulliad yn cyfarfod â chynrychiolwyr rhwydweithiau'r mudiadau gwirfoddol sy'n berthnasol i'r meysydd y mae ganddynt gyfrifoldeb amdanynt, a hynny o leiaf ddwywaith bob blwyddyn galendr. Yn ystod y cyfarfodydd hyn, adolygir y ffordd y mae'r Cynllun yn cael ei weithredu a faint o ymgynghori a thrafod sydd wedi bod rhwng y rhwydwaith a'r Ysgrifennydd neu'r Pwyllgor priodol. Bydd y cyfarfodydd hyn yn adolygu gweithgareddau'r gorffennol, yn rhagweld materion a all godi yn y dyfodol ac yn ystyried

adnoddau. Bydd un o'r cyfarfodydd yn cael ei gysylltu â Chylch Cynllunio Cyllideb y Cynulliad a bydd yn canolbwyntio ar faterion ariannu. Darperir adroddiadau o'r cyfarfodydd hyn i'r Bwyllgorau a bydd yn ddyletswydd ar Bwyllgorau i drafod yr adroddiadau hyn o leiaf unwaith y flwyddyn. Rhoddir sylw i'r adroddiadau ar gyfarfodydd Ysgrifenyddion y Cynulliad â'r rhwydweithiau sector gwirfoddol perthnasol yn yr Adroddiad Blynyddol hefyd, a chaiff ei baratoi ar ôl ymgynghori â'r sector gwirfoddol ac a fydd yn cymharu perfformiad â'r Cynllun.

3.8 Mae'r Cynulliad yn cytuno y bydd gweithredu'r trefniadau hyn yn cael ei fonitor a'i adolygu ar y cyd. Mewn rhai achosion bydd cyrff arweiniol y sector gwirfoddol neu rwydweithiau anffurfiol eisoes yn bodoli a fydd yn gallu bod yn sail i'r cyfnewid hyn. Mewn sefyllfaoedd eraill efallai y bydd angen i nifer o'r prif fudiadau ddod ynghyd i ffurfio trefniadau newydd. Bydd angen i lawer gysylltu â mwy nag un rhan o'r Cynulliad a dylai cyrff y sector gwirfoddol sicrhau eu bod yn cofrestru eu buddiannau yn briodol.

Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol

3.9 Wrth geisio cyflawni ei fwriad i weithio yn effeithiol gyda'r sector gwirfoddol, bydd y Cynulliad yn sefydlu Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol.

3.10 Bydd y Cyngor hwn yn cynnwys Aelodau Cynulliad a chynrychiolwyr wedi'u penodi o'r sector gwirfoddol. Bydd Ysgrifennydd Cynulliad penodedig yn cadeirio Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol. Bydd Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol yn adrodd yn ôl i'r Cynulliad.

3.11 Bydd y Cynulliad yn penodi un ar ddeg o gynrychiolwyr, gan adlewyrchu cydbwysedd y pleidiau, i fod yn aelodau o Gyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol.

3.12 Bydd cynrychiolwyr y sector gwirfoddol yn cynnwys tri chynrychiolydd o Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ac un ar hugain o gynrychiolwyr o'r sector.

3.13 Bydd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn hwyluso'r gwaith o ddewis cynrychiolwyr y sector gwirfoddol ac yn sicrhau, cyhyd ag y bo modd, eu bod yn cynrychioli croestoriad o fuddiannau a gweithgareddau'r sector gwirfoddol.

3.14 Bydd swyddogion y Cynulliad a swyddogion Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn cefnogi Cyngor Partneriaeth y

Sector Gwirfoddol. Efallai bydd cyrff/unigolion eraill sy'n cynrychioli buddiannau cyrff y sector gwirfoddol hefyd yn cael eu gwahodd i fynychu a siarad yng nghyfarfodydd Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol yn ôl doethineb y Cadeirydd.

3.15 Fel arfer bydd Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol yn cyfarfod o leiaf ddwywaith bob blwyddyn galendr ac efallai y bydd hefyd yn sefydlu gweithgorau i gyflawni darnau penodol o waith mewn perthynas â'r Cynllun. Hefyd efallai bydd Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol yn penodi unigolion â phrofiad perthnasol o'r sectorau cyhoeddus neu wirfoddol i roi cyngor yn ystod ei gyfarfodydd neu i wasanaethu ei weithgorau.

3.16 Bydd Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol yn :

- cyngori ar weithredu, monitro ac adolygu y Cynllun Sector Gwirfoddol gan gynnwys sefydlu dangosyddion y gellir eu defnyddio i werthuso'r Cynllun;
- hwyluso ymgynghori â'r cyrff sector gwirfoddol perthnasol a chyrrff y sector cyhoeddus ar roi'r Cynllun ar waith, ei weithredu a'i adolygu;
- cyngori ar roi'r Cynllun ar waith a'i weithredu a pharatoi adroddiad blynyddol i'w ystyried gan y Cynulliad;
- cynnig trefniadau ar gyfer adolygu'r Cynllun ar ôl pob etholiad cyffredin y Cynulliad a chynorthwyo â'r broses adolygu;
- ystyried materion sy'n gysylltiedig â gweithrediad y Cynllun sy'n effeithio neu'n ymwneud â'r sector gwirfoddol, a gwneud argymhellion i'r Cynulliad;
- ystyried materion sy'n gysylltiedig â swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Cynulliad sy'n effeithio neu'n ymwneud â'r sector gwirfoddol, sy'n ehangach na chyfrifoldebau un pwyllgor pwnc unigol, a gwneud argymhellion i'r Cynulliad.



Gwybodaeth a dealltwriaeth

3.17 Er mwyn hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o gryfderau a chyfyngiadau cymharol y Cynulliad ar sector gwirfoddol, bydd y Cynulliad yn:

- casglu gwybodaeth ar ba gyrff sy'n bodoli yn y sector gwirfoddol, beth yw eu gwaith ar gallu sydd ganddynt i gyflawni eu hamcanion;
- cynhyrchu gwybodaeth am adrannau'r Cynulliad, asiantaethau a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yng Nghymru, eu diben a'u meysydd cyfrifoldeb, eu prif bolisiau a blaenoriaethau a'u prif raglenni gweithgarwch, gan roi sylw penodol i'r polisiau ar blaenoriaethau hynny sy'n berthnasol i'r sector gwirfoddol;
- nodi cyfleoedd ar gyfer hyfforddi ar y cyd rhwng staff y Cynulliad a mudiadau'r sector gwirfoddol;
- cynnal gweithgareddau ar y cyd â'r sector gwirfoddol ar lefelau priodol er mwyn cytuno ar drefniadau gweithio a phennu amcanion;
- trefnu rhaglen o secondiadau, cyfnewidiadau, neu gyfnodau byr o swyddi cysgodi, rhwng staff y sector gwirfoddol a Swyddogion y Cynulliad.

Profi Polisiau

3.18 Bydd y Cynulliad yn sicrhau ei fod yn ystyried goblygiadau'r polisiau newydd ar gyfer y sector gwirfoddol, neu newidiadau mewn polisi wrth eu paratoi. Cyhyd ag y bo modd, bydd y Cynulliad yn ceisio osgoi neu liniaru unrhyw effaith annymunol ar y sector gwirfoddol ac i nodi ac annog cyfleoedd ar gyfer mudiadau'r sector gwirfoddol. Bydd cyrff y sector gwirfoddol o dan sylw yn cael eu hysbysu ac yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau ar y cyfle cynharaf posibl a chyn ymgynghori'n ffurfiol pan fo'n bosibl.

3.19 Mae buddiannau amrywiol cyrff y sector gwirfoddol yn golygu nad yw'n bosibl nodi pob maes polisi a allai fod o ddiddordeb i'r sector gwirfoddol. Er hynny, bydd y Cynulliad yn ystyried y cwestiynau canlynol i helpu nodi meysydd o ddiddordeb posibl.

- A yw'r polisi yn cyfeirio yn benodol at gyrff y sector gwirfoddol? A ydyw wedi cysylltu â'r gyrff sector gwirfoddol perthnasol neu wedi ymgynghori ynghylch yr argymhellion ac a yw'r rhagdybiaethau a wnaethpwyd ynghylch y sector yn yr argymhellion yn gywir?
- Pa swyddogaethau, cyfrifoldebau neu ofynion newydd mae'n ei osod ar gyrff y sector gwirfoddol, neu pa gyfleoedd newydd a gynnigir iddynt?
- A fydd y gofynion yn effeithio'n niweidiol ar waith rhai o gyrff y sector gwirfoddol ac a fyddant yn ei chael yn anodd i gydymffurfio â hwy?
- A fydd y gofynion newydd yn berthnasol i wirfoddolwyr? A fydd yn ei wneud yn fwy anodd iddynt wirfoddoli, yn enwedig os ydynt yn wirfoddolwyr amser-llawn?
- A oes cyfle ar gyfer eithrio neu ddarpariaethau arbennig i leihau neu ddiddymu unrhyw effeithiau andwyol ar y sector gwirfoddol?
- Pan fo polisiau a rhaglenni sy'n cynnwys darparu gwasanaethau gan gyrff allanol yn cael eu datblygu, a ystyrir y sector gwirfoddol fel darparydd posibl? A fydd y gofynion yn ei wneud yn fwy anodd iddynt gymryd rhan?
- A oes rhai amcanion penodol y byddai'n arbennig o addas i'r sector gwirfoddol eu cyflawni, ac os felly, a geir trefniadau i hwyluso hyn?
- A yw'r cynigion wedi eu llunio a'u cyflwyno mewn modd sy'n sicrhau'r cyfraniad mwyaf defnyddiol ac effeithiol gan fuddiannau'r sector gwirfoddol? A oes cyfle i gynnwys mesurau i gynorthwyo'r sector gwirfoddol i fod yn rhan o'r meysydd lle nad yw wedi'u datblygu'n llawn a lle nad oes digon o adnoddau? A yw'r sector wedi'i gynrychioli mewn strwythurau newydd i ddatblygu'r cynigion?
- Pan fydd cynlluniau ar gyfer ymgynghori, a ofynnir am farn gyrff gwirfoddol a gwirfoddolwyr? A fyddai'r sector gwirfoddol yn gallu helpu i ofyn barn defnyddwyr y gwasanaethau, neu gymunedau penodol o ddiddordeb ynghylch yr argymhellion?



3.20 Efallai bydd cyfarwydddebau neu ddeddfwriaeth arfaethedig sy'n deillio o'r Comisiwn Ewropeaidd yn ogystal â deddfwriaeth a pholisi domestig yn effeithio ar y sector gwirfoddol. Bydd y Cynulliad yn ceisio sicrhau bod yr un ystyriaethau yn cael sylw wrth ddatblygu polisi yn y meysydd hynny.

3.21 Bydd y Cynulliad yn sefydlu ac yn cynnal grŵp cyswllt mewnol yn cynnwys cynrychiolwyr o bob Adran o'r Cynulliad sydd mewn cyswllt â'r sector gwirfoddol er mwyn cyfnewid gwybodaeth a sicrhau bod egwyddorion ac ymrwymadau'r Cynllun yn cael eu cynnal.

3.22 Hefyd, bydd y Cynulliad yn ymgynghori'n rheolaidd â thrawstoriad o fudiadau er mwyn darganfod i ba raddau mae'r trefniadau yn gweithio. Bydd hefyd yn llunio'r adroddiad blynyddol i Gyngor Partneriaeth y Sectorau Gwirfoddol ei ystyried.

3.23 Bydd Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol yn ystyried ac yn gwneud argymhellion ar y camau sydd angen eu cymryd i wella perfformiad y Cynulliad, ei asiantaethau a'r cyrff a noddir ganddo a'r sector gwirfoddol. Bydd enghreifftiau o arferion da yn cael eu hybu.

3.24 Bydd Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol yn ceisio datrys anghytundebau rhwng y sector gwirfoddol a'r Cynulliad. Bydd cwynion yn cael eu datrys drwy weithdrefn gwynion y Cynulliad.

PENNOD 4: Y WEITHDREFN AR GYFER YMGYNGHORI Â'R SECTOR GWIRFODDOL YNG NGHYMRU

4.1 Mae'r Cynulliad wedi ymrwymo i:

- bennu gweithdrefnau cytûn ar gyfer ymgynghori ar newidiadau polisi a datblygiadau polisi newydd sy'n effeithio ar gyrff gwirfoddol a chymunedol a/neu fuddiannau gwirfoddoli sy'n cynnwys:
 - * cyfleoedd ar gyfer parhau â'r drafodaeth rhwng y gyrff gwirfoddol a chymunedol a buddiannau gwirfoddoli a'r Cynulliad er mwyn meithrin dealltwriaeth a chysylltiad cynnar wrth ddatblygu polisi;
 - * trefniadau ymgynghori a fydd fel arfer yn caniatáu digon o amser ar gyfer ymgynghori ehangach â rhwydweithiau a defnyddwyr y gwasanaeth;
 - * rôl y gyrff ymbarel a'r cyfryngwyr sy'n hwyluso ymgynghori
 - * adborth i ymatebwyr ar yr ymatebion i'r ymgynghori a'r canlyniadau;
 - * cyfleoedd i'r sector barhau i fod â rhan yng nghamau gweithredu a gwerthuso'r polisi.

4.2 Bydd y Cynulliad yn sicrhau bod yr ymrwymadau hyn yn cael eu hadlewyrchu'n llawn yn y canllawiau i'r staff ar gynnal ymarferion ymgynghori. Ceir manylion y gweithdrefnau hyn yn y Llawlyfr a roddir i swyddogion y Cynulliad a thrafodir y rhain â'r sector gwirfoddol o bryd i'w gilydd.

4.3 Yn gyffredinol, gall ymgynghori ar ran y Cynulliad fod ar ffurf ysgrifenedig trwy arolygon barn; grwpiau ffocws; a phaneli defnyddwyr fel y bo'n briodol. Yn benodol, gellir defnyddio arolygon i roi syniad o faint y farn, tra gellir defnyddio ymchwil ansoddol trwy grwpiau ffocws neu baneli i ddarparu dealltwriaeth o'r amrediad o sylwadau a chymhlethdod y sylwadau hynny.

4.4 Gall ymgynghori ysgrifenedig amrywio o ymgynghoriadau cyhoeddus i ymgynghoriadau llai o faint gyda grwpiau arbenigol ar faterion o ddiddordeb cyfyngedig neu faterion technegol.

4.5 Bydd y Cynulliad yn cynnwys ymgynghori ar gynlluniau ar gyfer datblygu polisi, ar gynigion a gwasanaethau penodol, ac yn fwy cyffredinol. Bydd yn cynnal ymgynghoriad yn ddigon cynnar yn y broses o ddatblygu polisi er mwyn i'r argymhellion sy'n deillio ohono fod yn unol â'r profiadau presennol a'r feddylfryd yn y maes ac osgoi tybiaethau anghywir a chamddealltwriaeth yn ddiweddarach yn y broses. Mae'r Cynulliad yn cydnabod y gall deialog barhaus â'r sector gwirfoddol helpu i hysbysu'r ddwy ochr am ddatblygiadau ac osgoi datblygiadau annisgwyl diangen. Er na fydd bob amser yn bosibl efallai neu yn briodol rhannu manylion polisi newydd cyn iddo gael ei gyhoeddi, bydd y Cynulliad yn rhoi gwybod i'r sector gwirfoddol pan fo'n bosibl, mewn termau cyffredinol, am ddatblygiadau sydd i ddod, ac yn ceisio eu sylwadau cychwynnol ar y pwnc.

4.6 Mae'r Cynulliad yn cydnabod y bydd yn rhaid i ymgynghori fod yn broses agored ac ystyrion os bwriedir iddo ennyn hygrededd a gwneud y defnydd gorau o amser ac adnoddau y sawl sy'n rhan o'r broses. Yn ystod y broses, bydd y Cynulliad yn egluro pa faterion y gellir ymgynghori arnynt a pha faterion na ellir ymgynghori arnynt. Bydd hyn yn dangos i sefydliadau allanol ymhle mae angen iddynt ganolbwyntio eu hymdrechion.

4.7 Mae'r Cynulliad yn cydnabod mai mater i sefydliadau unigol yn y sector gwirfoddol yw penderfynu a ddylent ymateb a sut i ymateb, gan ystyried eu hamgylchiadau neilltuol a'r adnoddau sydd ar gael. Os na fydd sefydliad yn ymateb i ymgynghoriad arbennig, ni chymerir yn ganiataol mai diffyg diddordeb yw'r rheswm.



PENNOD 5: POLISI'R CYNULLIAD AR WIRFODDOLI

5.1 Mae'r Cynulliad yn gwerthfawrogi bod gwirfoddoli yn fodd pwysig o fynegi dinasyddiaeth, a'i fod yn elfen hanfodol o ddemocratiaeth. Ei hanfod yw ymrwymo amser ac egni er budd y gymdeithas a'r gymuned a gall fodoli mewn sawl ffurf. Ymgwymerir ag ef o ddewis, heb ystyried elw ariannol.

5.2 Bydd y Cynulliad yn ceisio:

5.2.1 gwella mynediad i wirfoddoli i bobl ym mhob sector o'r gymdeithas drwy:

- gydnabod bod gan bawb yr hawl i gymryd rhan ym mywyd eu cymuned, ac yn y gymdeithas yn gyffredinol drwy wirfoddoli;
- cytuno y dylai gwirfoddolwyr adlewyrchu'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu o ran eu hoedran, eu rhyw, eu tuedd rywiol, eu hanabledd, eu hethnigrwydd, eu hiaith a'u crefydd;
- cytuno y dylai gwirfoddoli fod ar gael i bawb yn y gymdeithas ac y dylid cymryd camau arbennig i gynnwys y rhai sy'n agored i ddieithrwrch cymdeithasol megis y rhai o gymunedau ethnig, y rhai sy'n anabl a'r rhai sydd ag anawsterau dysgu;
- cydnabod bod gwirfoddoli yn digwydd yn ffurfiol ac yn anffurfiol - a dylai'r mesurau i'w cynorthwyo fod yn sensitif i amgylchiadau y gwirfoddoli;
- cydnabod y cyfraniad y gall gwirfoddolwyr ei wneud wrth gyflwyno mentrau'r Cynulliad Cenedlaethol a nodi elfennau o'i bolisiau a all fod yn berthnasol i wirfoddolwyr;
- ei gwneud yn ofynnol yn ei gynlluniau cyllido a grantiau bod sefydliadau'n dangos polisi effeithiol ar gyfer sicrhau cyfranogiad gwirfoddolwyr o drawstoriad o'r gymdeithas sy'n addas ar gyfer natur y sefydliad;
- sicrhau, wrth lunio grantiau a chyflwyno tendrau, bod cyfraniad gwirfoddolwyr at gyflwyno'r gwasanaeth yn cael ei annog, ac y bydd yn annog eraill yn y sector cyhoeddus sy'n gyfrifol am gyllido i wneud yr un modd;
- annog sefydliadau i wneud darpariaeth ddigonol i recriwtio gwirfoddolwyr o grwpiau sy'n agored i ddieithrwrch cymdeithasol gan gynnwys pobl anabl, pobl o gymunedau ethnig a'r rhai â chanddynt anghenion arbennig.

5.2.2 ei gwneud hi'n haws i bobl wirfoddoli drwy:

- gefnogi ymdrechion i sicrhau nad oes rhwystrau dianghenraid yn bodoli a fydd yn rhwystro pobl rhag gwirfoddoli;
- cytuno na ddylai cyfoeth ariannol fod yn ystyriaeth ar gyfer cymryd rhan mewn gwirfoddoli;
- deall pwysigrwydd arferion da a rheolaeth effeithiol ar gyfer gwerthfawrogi a chadw gwirfoddolwyr
- ystyried y gost o gynnwys gwirfoddolwyr yn ei broses o gyllido'r sector gwirfoddol a mentrau prynu;
- annog cyllidwyr a phrynwyr gwasanaethau i gynnwys darpariaeth ariannol ar gyfer y gost o gynnwys gwirfoddolwyr yn ei fentrau cyllido a phrynu'r sector gwirfoddol;
- datblygu peirianwaith ar gyfer ystyried effaith deddfwriaeth a rheoliadau newydd ar wirfoddoli;
- annog awdurdodau lleol i osod polisiau ar waith i gefnogi gwirfoddoli a chynnwys adroddiadau ar effaith gwirfoddolwyr yn eu hadroddiadau blynyddol a'u cyhoeddiadau;
- annog cyrff y sector cyhoeddus i osod polisiau ar waith i gefnogi gwirfoddoli a chynnwys adroddiadau ar effaith gwirfoddolwyr yn eu hadroddiadau blynyddol a'u cyhoeddiadau;

5.2.3 annog cyfranogiad mwy effeithiol gan wirfoddolwyr trwy:

- gytuno fod arfer da yn gyfrifoldeb ar y cyd ac y dylai cyrff gwirfoddol, gan gynnwys canolfannau gwirfoddolwyr ac adrannau priodol y Cynulliad ledaenu arweiniad ar arferion da megis y *Code of Practice for Involving Volunteers* (a gynhyrchwyd gan Fforwm Gwirfoddoli Cymru) mor eang â phosibl;
- ceisio sicrhau bod hyfforddiant mewn rheoli gwirfoddolwyr yn bwnc sy'n hawlio sylw'r sectorau gwirfoddol a statudol;

- ceisio sicrhau bod gwirfoddolwyr yn ddiogel, yn cael eu trin yn deg, ac yn cael eu rheoli'n briodol;
- ystyried ffyrdd i sicrhau bod y broses o ddatblygu deunyddiau hyfforddi ar gyfer rheolwyr gwirfoddol yn cael ei gynnal;
- annog cyllidwyr a phrynwyr gwasanaethau i ymgorffori darpariaeth ariannol ar gyfer y gost o hyfforddi rheolwyr yn ei gyllid ar gyfer y sector gwirfoddol a'i fentrau prynu;
- annog awdurdodau lleol a statudol i ddatblygu polisiau er mwyn cynnwys gwirfoddolwyr;
- annog hyfforddiant mewn gweithio gyda gwirfoddolwyr ar gyfer staff y mae eu cyfrifoldebau'n cynnwys rheoli gwirfoddolwyr ac annog cyrff proffesiynol i gynnwys rheoli gwirfoddolwyr fel rhan o'u hyfforddiant proffesiynol;
- edrych ar y pwnc o achredu a dilysu gweithgarwch gwirfoddol, mewn partneriaeth â'r cyrff achredu priodol ac asiantaethau datblygu gwirfoddoli ledled y DU;
- cefnogi gweithredu a gwirfoddoli yn y gymuned leol yng ngwaith y Cynulliad ar Well Reoleiddio sy'n ceisio gwella rheoleiddio a lleihau biwrocratiaeth.

5.2.4 gwella trefniadaeth ac isadeiledd gwirfoddoli drwy

- gytuno bod isadeiledd cadarn yn allwedd i ddatblygu gwirfoddoli yng Nghymru;
- cytuno bod mynediad i wybodaeth leol annibynnol, cymorth a chefnogaeth yn elfen hanfodol wrth annog pobl i wirfoddoli;
- cydnabod rôl canolfannau gwirfoddoli wrth ddatblygu a lledaenu arferion da, cynrychioli sylwadau gwirfoddolwyr a dadlau ar eu rhan;
- cefnogi datblygiad parhaus rhwydwaith o ganolfannau gwirfoddoli a dulliau eraill o hyrwyddo, datblygu a chefnogi

gwirfoddoli yn ardal pob awdurdod lleol;

- cydnabod a chefnogi datblygiad y rhwydweithiau gwirfoddoli – Fforwm Gwirfoddoli Cymru a Chymdeithas Canolfannau Gwirfoddoli Cymru – ar gyfer hybu ac annog arferion da mewn gwirfoddoli;
- cydnabod rôl Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru mewn perthynas ag arweiniad, polisi a chynllunio strategol, ac adnabod a lledaenu arferion da o fewn maes gwirfoddoli;
- adolygu lefel a thargeddu cyllid er mwyn cefnogi gwirfoddoli a'r isadeiledd gwirfoddoli.

5.2.5 codi statws a gwella delwedd gwirfoddoli drwy:

- gytuno y dylid rhoi mwy o hysbysrwydd i wirfoddolwyr;
- gytuno i weithio gyda'r sector gwirfoddol i ehangu canfyddiad y cyhoedd o wirfoddoli trwy wella proffil, statws ac amrediad gweithgareddau gwirfoddol;
- annog awdurdodau lleol, awdurdodau iechyd, Ymddiriedolaethau'r NHS a'r sector preifat i ddatlu cyfraniad gwirfoddolwyr trwy eu cynnwys mewn cylchgronau mewnol, adroddiadau blynyddol ac wrth ystyried cynlluniau gwobrwyo;
- parhau i gefnogi gwobrau priodol ar gyfer gwirfoddoli a chyrrff gwirfoddoli.

PENNOD 6: SUT BYDD Y CYNULLIAD YN HYBU DATBLYGIAD CYMUNEDOL

6.1 Mae'r Cynulliad yn cydnabod datblygiad cymunedol fel 'pobl yn cydweithio, ar faterion a nodir ganddynt hwy, i beri newid trwy weithredu ar y cyd'. Mae'n broses sy'n troi'n weithredoedd i hybu lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cymunedau, gan fodloni anghenion a gobeithion y cymunedau hynny trwy ymdrechion ar y cyd gan y gymuned a'r sefydliadau sy'n ei gwasanaethu.

6.2 Fel ategiad i fuddsoddiad preifat a darpariaeth gwasanaethau'r sector cyhoeddus, mae gwaith datblygu cymunedol yn ymagwedd benodol sy'n annog cymunedau i gymryd rhan yn uniongyrchol i lunio eu dyfodol – gan ddiffinio eu hanghenion eu hunain, ystyried sut y gellir bodloni'r anghenion hynny, penderfynu ar flaenoriaethau ar y cyd, a gweithredu ar y cyd.

Y Cynulliad fel partner mewn datblygiad cymunedol

6.3 Mae'r Cynulliad yn cydnabod gwerth a buddiannau datblygiad cymunedol. Mae datblygiad cymunedol yn rhan hanfodol o'r polisiau a'r mentrau ledled y sbectrw m eang o weithgareddau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Gall yr ymagwedd hon helpu hybu adfywiad cymunedol, mynd i'r afael â dieithrwch cymdeithasol, adeiladu cymunedau cynaliadwy, a chyfrannu at ddiwylliant o ddysgu gydol oes.

6.4 Mae'r Cynulliad yn credu bod angen defnyddio cryfder cyfunol cymunedau a'u partneriaid i ddod o hyd i atebion cyffredin i broblemau cyffredin. Fel arfer mae mwy nag un ffactor yn achosi'r problemau sy'n wynebu ein cymunedau, ac fel arfer maent yn effeithio ar fwy nag un rhan o fywydau pobl.

6.5 Mae hybu datblygu cynaliadwy yn thema sy'n bodoli ar draws agenda polisi y Cynulliad. Mewn datblygu cymunedol mae hyn yn golygu adeiladu medrau'r bobl leol er mwyn sicrhau bod digon o arweinwyr cymunedol a grwpiau o bobl leol i allu rheoli projectau lleol, cynrychioli cymunedau yn effeithiol ac annog cefnogaeth gymunedol.

6.6 Mae'r Cynulliad yn cydnabod bod yr adeiladu ar allu y bydd ei angen yn y cymunedau mwyaf difreintiedig er mwyn iddynt gymryd rhan yn llawn yn y broses datblygu cymunedol yn broses tymor hir ac mae cefnogaeth tymor hir i'r broses yn hanfodol.

6.7 Dylai grwpiau sy'n rhan o weithgareddau datblygu cymunedol gael cydnabyddiaeth i'w gwaith fel rhan o raglenni'r brif ffrwd sy'n mynd i'r afael â phroblemau dwfn dieithrwch cymdeithasol. Bydd y Cynulliad yn ceisio sicrhau bydd datblygu cymunedol yn ffurfio rhan o'r rhaglenni prif ffrwd hyn.

6.8 Gall datblygu cymunedol ddod â chanlyniadau llwyddiannus sylweddol wrth adeiladu cymunedau gweithgar ac wrth fynd i'r afael â phroblemau dwfn dirywiad economaidd a dieithrwch cymdeithasol. Fodd bynnag mae angen fframwaith o gefnogaeth. Mae'n rhaid i hwn gynnwys :

- cefnogaeth ar gyfer cynyddu gallu er mwyn cynyddu gallu'r cyrff a'r unigolion o fewn y gymuned i arwain a chynnal datblygiad eu cymunedau;
- cyngor uniongyrchol i'r cyrff a'r gwirfoddolwyr cymunedol, a gwasanaethau iddynt yn annibynnol ar y partneriaid eraill;
- parodrwydd i ymuno â phartneriaethau lle mae'r gymuned yn cyfrannu at bennu ei dyfodol ei hun;
- buddsoddiad tymor hir mewn cymunedau trwy gymorth grant uniongyrchol a thrwy ymrwymiad gan asiantaethau cyhoeddus;
- gwerthuso datblygu cymunedol a lledaenu arferion da;
- cefnogaeth ac anogaeth ar gyfer entrepreneuriaid cymdeithasol.

Cefnogaeth y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer datblygu cymunedol

6.9 Bydd y Cynulliad yn darparu pum prif fath o gefnogaeth ar gyfer Datblygu Cymunedol.

- Cyllid uniongyrchol ar gyfer datblygu cymunedol (ee trwy'r Rhaglen Pobl mewn Cymunedau, y Gronfa Adfywio leol ac arian a ddyrannwyd i awdurdodau lleol – a arferai fod yn arian y Cynllun Datblygu Strategol (SDS)). Mae'r Cynulliad yn cefnogi projectau unigol, naill ai yn uniongyrchol neu drwy grantiau neu gymeradwyaethau credyd a gyflwynwyd i awdurdodau lleol, o fewn canllawiau cyffredinol sy'n cynnwys annog dulliau strategol a chymunedol o weithio.

- Sicrhau cefnogaeth llywodraeth leol trwy hybu compactau lleol a chytuno ar lefelau cyfraniadau ariannol i brojectau adfywio'r sector gwirfoddol (ee cytuno bod awdurdodau lleol yn gwario o leiaf 20% o adnoddau blaenorol yr SDS yn y sector).
- Cyllid ar gyfer cyrff sy'n cydgysylltu cyrff y sector gwirfoddol (ee Cynghorau Gwirfoddol Sirol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu) sy'n hyrwyddo datblygu cymunedol trwy gyngor, cefnogaeth, hyfforddiant ac arferion gorau ac yn darparu'r isadeiledd ar gyfer mentrau cymunedol eu naws.
- Cyllid a chefnogaeth anuniongyrchol lle mae ei asiantaethau, megis Awdurdod Datblygu Cymru a'r Cynghorau Hyfforddi a Menter yn gyfrifol am: ddatblygu polisiau, mesurau a gweithdrefnau i gefnogi datblygiad cymunedol, a hyrwyddo ymwybyddiaeth o fewn yr asiantaethau hyn ac o fewn awdurdodau lleol o'r cysylltiadau trawsbynciol rhwng eu gweithgareddau prif ffrwd a'r broses datblygu cymunedol.
- Datblygu polisi ac arferion cydymdeimladol ar draws holl waith y Cynulliad trwy ariannu ymchwil, gwerthuso rhaglenni grant, lledaenu arferion da ac ariannu cyfnewid arferion da a sicrhau bod buddiannau'r cyrff gwirfoddol a chymunedol yn cael eu hybu.

Blaenoriaethau

6.10 Mae'r Cynulliad yn credu, er mwyn cyflawni'r weledigaeth o Gymru hyderus ac allblyg, lle gall pawb gyflawni eu potensial, bod angen i'r holl raglenni a pholisiau gydweithio, gan dorri ar draws y ffiniau swyddogaethol traddodiadol pan fo angen, er mwyn blaenoriaethu eu cyfraniad at gyfleoedd swyddi gwell; gwell addysg; gwell iechyd; ansawdd bywyd gwell a gwerth gorau.

6.11 Mae gan ddatblygiad cymunedol rôl bwysig o safbwynt cyflawni'r dyheadau hyn.

Rhaglenni Ewropeaidd a datblygu cymunedol

6.12 Mae'r Cynulliad yn credu bod angen cymryd camau penodol wedi eu targedu er mwyn mynd i'r afael â phroblemau cymunedau mwyaf difreintiedig Cymru a chaniatáu i'w haelodau ddatblygu'r medrau a'r hyder i fynd i mewn i fywyd economaidd y brif ffrwd ac i lunio atebion lleol addas i broblemau cymunedol.

Mae hanes cyfoethog o weithgarwch cymunedol sy'n gwneud y mathau hyn o ymyrraeth yn arbennig o briodol.

6.13 O dan y rhaglenni newydd sy'n weithredol o 2000-2006 bydd y blaenoriaethau allweddol ar gyfer datblygu cymunedol fel a ganlyn:-

- datblygu gallu sefydliadau cymunedol i'w galluogi i bennu anghenion lleol ac adeiladu partneriaethau effeithiol;
- cefnogi ehangiad a datblygiad mentrau yn yr economi gymdeithasol, gan adeiladu ar arferion da y gorffennol;
- darparu cymorth ar gyfer mentrau a dargedwyd sy'n caniatáu i bobl nad ydynt yn gallu manteisio ar wasanaethau'r brif ffrwd – gan gynnwys y sawl sy'n economaidd anweithgar yn y tymor hir – i gael mynediad i hyfforddiant neu gyflogaeth

6.14 Bydd angen i'r mentrau hyn gael eu targedu yn ofalus er mwyn sicrhau bod adnoddau yn cael eu cyfeirio at y cymunedau mwyaf ffiniol. Bydd meini prawf clir yn cael eu datblygu i nodi'r cymunedau sydd angen cefnogaeth. Bydd angen i weithgareddau a arweinir yn y gymuned fodoli gyda phrojectau lleol i wella amgylchedd ac isadeiledd ffisegol neu ddarparu gwasanaethau allweddol sy'n absennol ar hyn o bryd.



Lefelau Partneriaeth

Mae partneriaeth yn gysyniad allweddol mewn llawer o bolisiau'r Cynulliad. Er hynny, defnyddir y gair i ddisgrifio amrywiaeth o berthnasau, ac yn aml caiff ei ddiffinio yn anghywir. Yn aml gofynnir i sefydliadau ymuno â phartneriaethau ond mae angen iddynt ddeall bydd yw union natur y cais er mwyn ymateb yn briodol. Efallai y byddai'n well disodli 'partneriaeth' fel term amlbwrpas gyda iaith fwy manwl-gywir sy'n adlewyrchu yn fwy cywir natur y berthynas a geisir. Mae'r canlynol yn enghreifftiau o'r gwahanol lefelau o bartneriaeth sy'n gallu bodoli.

1	Cefnogwr	Yn yr achos hwn, gofynnir i'r corff fod yn bartner, ond yr hyn a olygir mewn gwirionedd yw a fydddech yn fodlon cefnogi'r fenter/project/cais gyda'ch enw neu drwy lythyr, a bod yn bresennol mewn ambell gyfarfod.
2	Asiant	Yn yr achos hwn, gofynnir i'r corff fod yn bartner o ran cyflwyniad, ond mewn gwirionedd yr hyn sydd ei angen yw asiant. Yma, mae'r dasg wedi ei rhagnodi, gyda neu heb drafodaeth, a gwneir taliad i gyflawni'r dasg. Mae'r pŵer yn parhau yn nwylo'r comisiynydd.
3	Cynghorwr	Gofynnir i nifer o gyrff eistedd ar bwyllgorau cynghori. Yn aml, mae'r rhain yn strwythurau anweithredol ail haen er mwyn cynnwys amrediad ehangach o chwaraewyr. Yn aml, nid oes llawer o ddylanwad gan bwyllgor cynghori, a gallai fod yn gwasanaethu buddiannau'r prif chwaraewyr (yn arddangos cynhwysiant) yn hytrach na'r cyfranogwyr. Mae'r pŵer yn aros gyda'r prif bwyllgor.
4	Aelodau iau	Yn yr achos hwn, mae'r sefydliad yn rhan o'r brif strwythur gwneud penderfyniadau, ond mae ganddo statws israddol naill ai o ran niferoedd neu ddylanwad. Gallai fod yn or-ddibynnol ar aelodau eraill o ran ei fodolaeth neu gyllid neu bolisi. Mae'r pŵer yn parhau gydag actorion eraill, a chaiff ei ddefnyddio i gadw'r sefydliad yn ei le eilradd.
5	Cyd-berchnogaeth	Yn yr achos hwn, mae'r sefydliad yn bartner cyfartal, ac yn cael ei weld a'i drin felly. Mae ganddo hawl i fod yno, a bydd hyn yn digwydd o'r cychwyn cyntaf. Mae ganddo gyfraniad cyfartal i'w wneud o ran cylch gorchwyl, meini prawf, polisi a dosbarthu adnoddau. Mae ganddo fynediad i'w etholaeth, ymchwil a'i wybodaeth ei hun ac nid yw'r aelodau eraill yn pennu ei adnoddau.
6	Perchnogaeth	Fel yr uchod, heblaw bod yn rhaid i'r cynrychiolwyr cymunedol fod ag o leiaf 50% o'r aelodau.



Ceir copïau pellach o'r ddogfen hon oddi wrth:

Adran Tai ac Adnewyddu Cymunedol
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ